**PWYLLGOR llywodraeth LEOL A THAI**

**PARTNERIAETHAU PREIFAT CYHOEDDUS A'R FENTER CYLLID PREIFAT (pfi)**

**PAPUR GAN GYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

1. Mae'r Gymdeithas yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth ger bron y Pwyllgor.

2. **Mae'r Gymdeithas o'r farn bod yn rhaid i bartneriaethau preifat cyhoeddus a PFI barhau'n opsiwn i awdurdodau benderfynu ar y ffordd orau i gaffael asedau cyfalaf neu wasanaethau, yn unol â gwerth gorau.** Mae awdurdodau yn defnyddio'r sector breifat yn helaeth ar gyfer prosiectau adeiladu neu gynnal a chadw, p'un a yw prosiectau o'r fath yn cael eu trin o dan PFI ai peidio.

3. Mae'r Gymdeithas yn nodi'r cynigion yn adolygiad y Cynulliad a oedd yn destun dadl ar 5 Rhagfyr. Fodd bynnag mae o'r farn bod modd mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â PFI mewn ffyrdd gwahanol i'r rheiny a argymhellir yn adolygiad y Cynulliad:

    1. **dylai'r opsiynau caffael gwahanol gael eu hystyried ar sail gyfartal,** gydag awdurdodau yn gwneud eu penderfyniadau yn unol ag egwyddorion gwerth gorau (paragraffau 6.1 a 6.2 o'r adolygiad). Dylai awdurdodau allu dilyn cynlluniau PFI gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, yn hytrach na chael eu gorfodi i'w dilyn oherwydd bod adnoddau ar gael o dan rowndiau bidio cystadleuol. Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo ei hun i osod cyfyngiadau benthyca darbodus a bennir yn lleol gan awdurdodau yn lle rheoli benthyca yn ganolog. Y fframwaith newydd yw'r union hyn sydd ei angen: bydd awdurdodau yn gallu asesu beth fydd cost refeniw benthyca newydd at ddibenion caffael traddodiadol a chost darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r ased yn erbyn yn gost refeniw o dalu contractwr preifat i ddarparu'r ased a'r gwasanaeth. Mae'r Gymdeithas yn barod i gyd-weithio gyda'r Cynulliad yn erbyn y cefndir hwn i sicrhau bod llif o gynlluniau PFI ar unrhyw adeg, er mwyn creu a chynnal gwybodaeth ohonynt ymhlith awdurdodau lleol a'r sector preifat;

    2. **<u>ni</u> ddylid cynnal rhagor o rowndiau bidio ar gyfer PFI mewn llywodraeth leol, ar wahân efallai i brosiectau mawr iawn** (paragraff 6.1). Yn ei ymateb yr haf diwethaf meddai'r Gymdeithas: "Ar wahân i brosiectau mawr iawn rydym o'r farn nad oes angen i'r Cynulliad ddyrannu adnoddau penodol i bob prosiect unigol gan awdurdod lleol. Byddai dull o'r fath yn fiwrocrataidd a diangen." Felly roedd y Gymdeithas yn synnu pan nodwyd yn yr adolygiad "Mae awdurdodau lleol yn

dymuno parhau â rhaglen y rowndiau bidio". Mae rowndiau bidio yn gosod ceisiadau'r naill gyngor yn erbyn y llall, pan nad yw'r Cynulliad yn gallu barnu a yw ysgol yn ardal A yn fwy o flaenoriaeth na chynllun ffyrdd yn ardal B neu adnewyddu tai cyngor yn ardal C. Mae rowndiau bidio yn gwastraffu adnoddau gwerthfawr wrth baratoi bidiau. Ni fydd pob un o'r rhain yn llwyddiannus, ac maent yn annerbyniol i bob awdurdod gan eu bod yn arwain at dafellu haenen uchaf y setliad refeniw cyffredinol neu gymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Ni ddylai'r Cynulliad geisio chwaith ffafrio PFI ar draul dulliau caffael eraill drwy gyflwyno grantiau penodol;

3. rhaglen y Partneriaethau Preifat Cyhoeddus (4Ps) yw'r cyfrwng mwyaf priodol sy'n bodoli i rannu'r arferion gorau rhwng awdurdodau lleol, gan fod modd hefyd elwa ar y profiad helaeth a gafwyd yn Lloegr. Gall hyn helpu i gael gwared â rhai o'r costau y mae cynghorau wedi eu hwynebu gyda'r prosiectau PFI cynnar. Mae 4Ps yn cael ei ariannu yn bennaf drwy haenen uchaf grant cymorth refeniw, gan gynnwys £51,000 o Gymru yn 2001-02. Byddai Uned Cyllid Preifat y Cynulliad yn dyblygu gwaith y 4Ps pe bai hefyd yn ceisio cefnogi prosiectau, rhannu gwybodaeth neu gynhyrchu dogfennaeth sylfaenol neu arweiniad manwl (paragraff 5.1). Er mwyn sicrhau'r lleihad arfaethedig mewn biwrocratiaeth (paragraff 6.4), dylid cyfyngu rôl y Cynulliad i ddarparu'r fframwaith cyfreithiol ac ariannol lle y gall awdurdodau wneud eu penderfyniadau caffael yn unol â gwerth gorau. Ni ddylai gymryd rhan yn y gwaith o graffu ar brosiectau unigol na'u herio, gan mai dyna ergyd y cynnig ar gyfer "y Cynulliad yn cymryd rhan helaethach" (paragraff 3, ail bwynt bwled);

4. **dylai'r Cynulliad ddarparu'r fframwaith sy'n galluogi awdurdodau lleol i ystyried y broses gaffael ar sail fwy strategol,** gan gynnwys cydweithio gydag awdurdodau neu gyrff cyhoeddus eraill, ond ni ddylai orfodi atebion o'r canol (paragraff 7.1). Mae'r fframwaith eisoes yn cael ei roi yn ei le. Mae gwerth gorau yn gorfodi awdurdodau i ymdrin ag a yw'n gost-effeithiol i ddarparu a chynnal asedau yn unigol; bydd datblygu cynlluniau rheoli asedau yn helpu awdurdodau i ddefnyddio eu sylfaen asedau bresennol hyd yr eithaf yn ogystal â nodi'r angen am fuddsoddi yn y dyfodol a'r flaenoriaeth amdano; ac ni ddylai'r fframwaith cyfreithiol newydd sy'n rheoli gwariant cyfalaf gan lywodraeth leol rwystro cydweithrediad rhwng awdurdodau neu unrhyw gyrff eraill. Ceir un enghraifft o leiaf eisoes o gynghorau sy'n cydweithredu'n wirfoddol mewn cynllun PFI;

5. **da yw gweld yr hyblygrwydd ar gynnwys staff rheoli cyfleusterau ai peidio mewn prosiectau PFI** (paragraff 6.3). Ond nid oes angen i'r Cynulliad ddarparu rhagor o arweiniad ar wahân i ddatgan yn groyw mai cyfrifoldeb yr awdurdodau yw penderfynu a ddylai trosglwyddo staff fod yn rhan o brosiectau PFI, yn unol ag egwyddorion gwerth gorau.

Mai 2001